**Eitem Agenda: 12**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**21 MAWRTH 2005**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr adroddiad**

1 Ystyried yr adroddiad gan y Pwyllgor Safonau, copi ynghlwm.

**Cefndir**

2 Penderfynodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr, fel mater o lywodraethiad corfforaethol da, y dylai ddarparu adroddiad blynyddol am ei weithgareddau i'r Awdurdod Tân. Mae'r adroddiad cyntaf yn cwmpasu cyfnod o 15 mis ers sefydlu'r Pwyllgor.

**Argymhelliad**

3 Bod yr Awdurdod Tân yn ystyried yr adroddiad ynghlwm.

**PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

1 Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o sefydlu'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2003 hyd at fis Mawrth 2005. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynhyrchu adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol o hyn ymlaen.

**Aelodaeth**

2 Roedd aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Mr Chris Bretherton-Watt (cadeirydd)
Mr John Pollard YH (is-gadeirydd)
Mr Simon Fysh

<u>Aelodau'r Awdurdod Tân</u>
Cynghorydd E Morgan Jones (Tachwedd 2003 – Mehefin 2004)
Cynghorydd H T Williams (Tachwedd 2003 – Mehefin 2004)
Cynghorydd Sharon Frobisher (o fis Gorffennaf 2004)
Cynghorydd Gwilym O Williams (o fis Gorffennaf 2004)

**Cyfarfodydd a gynhaliwyd**

3.1 Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith yn ystod y cyfnod dan sylw: 21 Tachwedd 2003, 28 Ionawr 2004 a 15 Rhagfyr 2004. Mae'r pwyllgor wedi cytuno y bydd yn trefnu i gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gan adael tua 6 mis rhwng cyfarfodydd yn y dyfodol.

3.2 Roedd y presenoldeb fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Mr Chris Bretherton-Watt | 3/3 |
| Mr John Pollard YH | 3/3 |
| Mr Simon Fysh | 2/3 |
| Cynghorydd E Morgan Jones | 2/2 |
| Cynghorydd H T Williams | 1/2 |
| Cynghorydd Sharon Frobisher | 1/1 |
| Cynghorydd Gwilym O Williams | 1/1 |

3.3 Amcangyfrifir cost ychwanegol gweithgareddau'r pwyllgor safonau, gan gynnwys costau teithio a chynhaliaeth, argraffu, postio ac yn y blaen, yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn i fod ychydig o dan £1000.

**Materion a drafodwyd**

4 Mae'r pwyllgor wedi trafod y materion isod:

4.1 y fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu ei waith a strwythur yr awdurdod a'i bwyllgorau eraill. Roedd hyn yn bennaf fel dull o hyfforddiant cyflwyniadol i aelodau'r pwyllgor;

4.2 sut i ymdrin â chofrestru buddiannau aelodau'r awdurdod. Roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynnig y cytunwyd arno'n ddiweddarach gan yr awdurdod tân, sef y dylid gofyn i'r aelodau awdurdodi datgelu i'r awdurdod tân y buddiannau hynny roeddynt wedi'u cofrestru gyda'u cyngor eu hunain;

4.3 gofynion hyfforddiant aelodau'r pwyllgor ac aelodau'r awdurdod tân. Mynychodd y tri aelod annibynnol y diwrnod hyfforddiant i aelodau newydd yr awdurdod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2004. Roedd hwn yn cynnwys modiwl ar y fframwaith moesegol. Mae'r pwyllgor safonau wedi dod i'r casgliad wedi hyn nad oes unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn ofynnol i aelodau'r awdurdod tân ond bydd yn adolygu'r sefyllfa'n flynyddol;

4.4 Presenoldeb aelodau'r pwyllgor yng nghyfarfodydd yr awdurdod neu'i bwyllgorau eraill. Cytunwyd y dylai'r aelodau ymdrechu i fynychu cyfarfodydd o dro i dro, i arsylwi ar y safonau ymddygiad fel llygad dyst ac fel cymorth i nodi unrhyw anghenion hyfforddiant. Mae pob un o'r aelodau annibynnol wedi mynychu o leiaf un cyfarfod o'r awdurdod neu bwyllgor arall yn ystod y cyfnod dan sylw;

4.5 Adroddiadau'r ombwdsmon a Phanel Dyfarnu Cymru. Nododd y pwyllgor y prif dueddiadau mewn cwynion a gadarnhawyd yn erbyn cynghorwyr ond nad oedd unrhyw gwynion wedi'u gwneud yn erbyn unrhyw aelod o awdurdod tân yn y cyfnod i fis Mawrth 2004. Prin iawn yw'r cwynion a gadarnhawyd yn erbyn aelodau awdurdodau tân yn Lloegr. Bydd y pwyllgor yn ystyried a ellir nodi unrhyw wersi o'r cwynion hynny a allai ddylanwadu ar hyfforddiant yn y dyfodol;

4.6 Trefniadau ar gyfer cynnal ymchwiliadau a chynnal gwrandawiadau gan y pwyllgor. Mae angen llunio'r rhain yn derfynol yn sgîl diwygio'r rheolau sefydlog, a gytunwyd ym mis Rhagfyr 2004, sy'n darparu i'r pwyllgor reoleiddio ei weithdrefnau ei hun.

4.7 Cynllun lwfansau. Nododd y pwyllgor fod lwfansau wedi'u cyflwyno i aelodau'r awdurdod. Mae aelodau annibynnol y pwyllgor yn derbyn costau teithio a chostau cynhaliaeth yn unig lle bo'n briodol. Gofynnodd y pwyllgor i'r awdurdod ystyried y cwestiwn o dalu lwfans bychan i'r

aelodau annibynnol, ac mae'n ddiolchgar bod y Panel Gweithredol wedi mynd ar ôl hyn drwy gefnogi newid i'r ddeddfwriaeth i alluogi talu lwfansau o'r fath.

**Cwynion yn erbyn aelodau'r awdurdod tân**

5 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ni wnaed unrhyw gwynion yn erbyn cynghorwyr o ran eu swyddogaeth fel aelodau o'r awdurdod tân. Yn unol â hynny ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y pwyllgor i'w hymchwilio na'u penderfynu. Gobeithia'r pwyllgor y bydd y sefyllfa dderbyniol yma'n parhau.

**Gweithgareddau eraill a gyflawnwyd gan aelodau'r pwyllgor safonau**

6 Yn ychwanegol at fod yn bresennol yn achlysurol yng nghyfarfodydd yr awdurdod tân neu ei bwyllgorau eraill roedd yr aelodau annibynnol a'r Cynghorydd Frobisher yn bresennol yng nghynhadledd flynyddol gyntaf pwyllgorau safonau yng Nghymru a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 11 Chwefror 2005. Cawsant gyfle i glywed gan yr ombwdsmon, cadeirydd Panel Dyfarnu Cymru a swyddog o Lywodraeth Cynulliad Cymru am y datblygiadau diweddar a'r rhai yn yr arfaeth o ran deddfwriaeth a chanllawiau, ac i rannu profiadau ag aelodau o bwyllgorau safonau eraill.

**Casgliad**

7 Nid oes gan y Pwyllgor Safonau unrhyw argymhellion i'w gwneud i Awdurdod Tân Gogledd Cymru o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

Mawrth 2005